Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig ar ddydd Mercher Mai 14eg 2008 am 7 p.m.

Cyn dechrau'r cyfarfod, gofynnodd y Clerc i bob aelod etholedig arwyddo Datganiad Derbyn Swydd ar ddechrau'r tymor newydd.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Hugh Towns, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Dawn Wallace, Cyng Chris Parish.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Chris Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Cof 31 / Mai / 08 Anerchiad y Maer

Diolchodd y Maer Cyng Richard Wallace i'w gydweithwyr am eu cefnogaeth yn ystod y Flwyddyn. Gohiriodd ei adroddiad tan Ginio Dinesig y Maer i'w gynnal ar Mai 28ain, 2008 yng Ngwesty'r Cawdor. Roedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones yn dymuno cofnodi ei ddiolchgarwch i'r Maer am flwyddyn o wasanaeth rhagorol i'r Dref, ac am fod yn Faer mor ofalgar.

Cof 32 / Mai / 08 Enwebiad ar gyfer Maer 2008-9

Cynigiwyd y Cyng Edward Thomas gan y Cyng Colin Jenkins. Eiliwyd gan Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Edward Thomas yr apwyntiad. Gwnaeth ei Ddatganiad Derbyn.
Rhoddodd y Cyng Richard Wallace y Gadwyn i'r Maer newydd. Cyflwynodd y Maer newydd Fedal y Maer Blaenorol i'r Cyng Richard Wallace.

Cof 33 / Mai / 08 Anerchiad y Maer

Diolchodd y Cyng Edward Thomas i'r aelodau am ei ethol yn Faer. Gohiriodd ei anerchiad tan Ginio Dinesig y Maer i'w gynnal Mai 28ain, 2008.

Cof 34 / Mai / 08 Cyflwynodd y Maer y Cyng Dawn Wallace gyda Broetsh y Maer blaenorol

Cof 35 / Mai / 08 Enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer

Cynigiwyd y Cyng Charlotte Leadbeater gan y Cyng Ros Bellamy. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roed pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Charlotte Leadbeater yr enwebiad a gwnaeth ei Datganiad Derbyn. Rhoddodd y Maer Fathodyn y Swydd iddi.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cof 36 / Mai / 08 Ethol a phenodi cynrychiolwyr i bwyllgorau a chyrff eraill

1. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Llandeilo: Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy i'r Cyng Hugh Towns aros tan ddiwedd tymor y swydd yn Nhachwedd 2008, ac adolygu'r mater bryd hynny. Eiliodd y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

2. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Teilo Sant: Cynigiodd y Cyng Charlotte Leadbeater y Cyng Roy Davies, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

3. Cymdeithas Gefeillio Tref: yn ôl eu cyfansoddiad, y Maer, Cyng Edward Thomas

4. Cymdeithas Gymunedol: Cyngor Llawn. Dylai pob aelod ymdrechu i fynychu.

5. Rhwydwaith Gymunedol Tywi Gwili: Enwebwyd y Cyng Ros Bellamy a'r Cyng Chris Parish

6 Un Llais Cymru: Y Maer.

7. Siambr Fasnach: Y Maer.

8. Monitro Polisi Cyfle Cyfartal: Cyng Fran Murphy. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins

9. Monitro Polisi'r Iaith Gymraeg : Cyng Roy Davies. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy

10. Monitro Personél: Enwebwyd y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

11. Monitro Polisi Amgylcheddol: Enwebwyd y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

12. Monitro Polisi Cyhoeddiadau: Enwebwyd y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Cof 37 / Mai / 08 Penodi Pwyllgorau Sefydlog

Gwahoddwyd pob Cynghorydd i eistedd ar bob pwyllgor oni bai eu bod yn nodi fel arall.

A) Pwyllgor Cyllid

Penderfynodd y Cyng Fran Murphy, y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Roy Davies beidio â derbyn eu hawl i eistedd ar y Pwyllgor hwn. Bydd y pwyllgor yn cynnwys:- Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Chris Parish, Cyng Ros Bellamy, Cyng Colin Jenkins, Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Dawn Wallace.

B) Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Penderfynodd y Cyng Hugh Towns, y Cyng Ieuan Gwyn a'r Cyng Ros Bellamy beidio â derbyn eu hawl i eistedd ar y Pwyllgor hwn. Bydd y pwyllgor yn cynnwys:-
Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Chris Parish, Cyng Richard Wallace, Cyng Dawn Wallace.

C) Staffio – Pwyllgor Disgyblu a Chwynion

Enwebwyd y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Colin Jenkins a'r Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

D) Pwyllgor Apeliadau
Enwebwyd y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 38 / Mai / 08 Ffurfio Gweithgorau

1. Grŵp Canmlwyddiant Parc Penlan i barhau tan ddiwedd y prosiect
Y Maer Cyng Edward Thomas, y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Colin Jenkins.

2. Grŵp Tân Gwyllt
Enwebwyd y Cyng Hugh Towns, y Cyng Chris Parish, y Cyng Richard Wallace ynghyd â'r Swyddog Technegol. Roedd pawb o blaid.

3. Is-grŵp Iechyd
Enwebwyd y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

4. Is-grŵp Goleuadau Nadolig
Enwebwyd y Cyng Richard Wallace, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Chris Parish ynghyd â'r Swyddog Technegol. Roedd pawb o blaid.

5. Grŵp Gweithdrefnau
Enwebwyd y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Hugh Towns, y Cyng Ros Bellamy a'r Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

6. Goruchwylio'r wefan
Enwebwyd y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

7. Gweithgor Derbyniad Treialon Cŵn Defaid y Byd
Enwebwyd y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace ynghyd â Chlerc y Dref. Roedd pawb o blaid.

Cof 38 / Mai / 08 Ystyried talu unrhyw danysgrifiadau

i) Aelodaeth Flynyddol Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi Dinesig. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy ac eiliodd y Cyng Richard Wallace i ddod a hwn i ben. Roedd pawb o blaid.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

ii) Aelodaeth Cymdeithas Clerciaid Lleol – Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

iii) Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn i unrhyw danysgrifiadau eraill gael eu hystyried wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn. Eiliodd y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 39 / Mai / 08 Archwilio unrhyw weithredoedd a dogfennau ymddiriedolaeth sydd ym Meddiant y Cyngor

1. Cadarnhawyd fod Huw Williams, Cyfreithwyr, mewn meddiant o weithredoedd ar gyfer yr Ardd Gymunedol.
2. Gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid ymweld â Banc HSBC i gadarnhau fod Siarter y Dref wreiddiol yn cael ei chadw'n ddiogel a hefyd i ofyn i'r Banc storio Cadwyn y Faeres. Roedd pawb o blaid.

Cof 40 / Mai /08 Ystyried Cyflog ac Amodau Staff

Cynigiodd y Maer Cyng Edward Thomas fod y Cyng Hugh Towns yn cynnal adolygiad o gyflog ac amodau Staff fel rhan o'r broses fonitro. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 8 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk